# Ymweld a’r Ystafell y Barics

## Sut mae’n gweithio:

Deg munud sydd gennych yn ystafell y barics.

Mae wyth set o arfwisgoedd. Helpwch hanner y plant i wisgo arfwisg, tra bod yr hanner arall yn eistedd ar y bync is ac yn gwrando ar stori milwr Rhufeinig. (Pwyswch y botwm i ddechrau'r stori sy'n para 5 munud). Cyfnewidiwch drosodd - fel bod pob plentyn yn cael gwisgo'r arfwisg a gwrando ar y stori.

## Diogelwch yn gyntaf!

- Rhaid i oedolyn fod yn bresennol drwy’r adeg.
- Ddim yn eistedd ar y bynciau uchaf.
- Sicrhewch fod y plant yn gwisgo arfwisg maint plentyn a helmed yn unig.
- 

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

**Ystafell barics wedi’i ailgreu yw hon, yn seiliedig ar yr olion Rhufeinig ger yr Amffitheatr.**

- Roedd wyth milwr yn cysgu mewn ystafell o’r maint hwn.
- Roedd milwyr yn cysgu ar fatresi gwellt gyda blanced ond dim clustogau.
- Efallai eu bod yn defnyddio tân i gadw’n gynnes a canhwyllau neu lampau oel fel golau.
- Roedd milwyr yn storio eu harfau yn yr ystafell allanol.
- Byddai milwyr yn paratoi bwyd yn yr ystafell hon ond roedd y rhan fwyaf yn cael ei goginio mewn poptai mawr.

**Cit Llengfilwr Rhufeinig:**

- **Tiwnig** - wedi’i wneud o wlân ac weithiau’n cael ei wisgo dros grys lliain.
- ***Balteus* (*belt)*** - gyda stribedi lledr â stydiau.
- ***Pugio* (dagr)** - defnyddiol fel offeryn amlbwrpas yn ogystal ag arf.
- ***Caligae* (esgidiau)** - gyda lledr a stydiau metel er mwyn peidio llithro ar y glaswellt.
- ***Lorica Segmentata* (arfwisg cylchrannog) -** stribedi haearn a lledr. Amddiffyn y corff ond hefyd yn galluogi hyblygrwydd ar faes y gad.
- ***Galea* (helmed)** - câi ei wisgo gyda chap meddal oddi tano. Gwarchod y milwr ond yn caniatáu iddo weld yn dda a chlywed gorchmynion. Roedd gosodiadau ar gyfer plu ar rai helmedau.
- ***Pila* (picelli)** - byddai milwyr yn cario dau o’r rhain i’w taflu at y gelyn.
- ***Gladius* (cleddyf)** - wedi’i wisgo ar ochr dde’r corff. Roedd rhaid i filwyr llaw chwith hyd yn oed ddysgu i ymladd â’u llaw dde.
- ***Scutum* (tarian)** - tarian grom i amgylchynu’r corff, câi ei dal yn y llaw chwith. Wedi’i haddurno gyda phaent.

# Llengfilwr Rhufeinig

